YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

Rhagfyr 1 2023

Annwyl Rieni / Warcheidwad,


*Cast Un Bore Mawrth*

**Un Bore Mawrth:** Llongyfarchiadau enfawr i'n criw o ddisgyblion a staff am berfformiadau penigamp o'r ddrama *Un Bore Mawrth* yn ystod yr wythnos hon. Dyma berfformiadau fydd yn aros yn hir yn y cof, o'r llwyfanu crefftus, y llefaru naturiol a'r perfformiadau hwyliog ac emosiynol: arbennig iawn! Hoffwn ddiolch i bawb am eu holl ymdrechion a'u llongyfarch ar berfformiadau o ansawdd gwirioneddol ardderchog.

**Llongyfarchiadau – a dewch i'n cefnogi!**
Yn dilyn tymor caled yn cystadlu yng Nghynghrair Ysgolion a Cholegau Cymru, braf llongyfarch ein Tîm XV 1af ar gyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth Cwpan am y tro cyntaf ar ôl buddugoliaeth wych yn erbyn Coleg Sir Gar. Cynhelir y rownd derfynol yn Stadiwm y Principality am 19.30 ar ddydd Mercher y 6ed o Ragfyr. Mae croeso i bawb i gefnogi, mae mynediad am ddim i'r stadiwm trwy gat 3 a byddai'n wych llenwi'r stadiwm cenedlaethol gyda lleisiau a chefnogaeth groch i Glantaf!  Pob lwc fechgyn yn y gêm ddydd Mercher nesaf ac edrychwn ymlaen i weld torf niferus!



*Tîm XV 1af sy'n cystadlu yn rownd derfynol Cwpan Cyngrhair Ysgolion a Cholegau Cymru am y tro cyntaf*

**Hamperi Nadolig**
Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yma at ein hymgyrch hamperi Nadolig ond rydym angen MWY! Byddem yn hynod o ddiolchgar petaech yn medru cyfrannu at yr apêl a fydd yn helpu teuluoedd lleol a all wynebu caledi dros yr ŵyl sydd o'n blaen.  Rydym wedi rhannu rhestr o eitemau sydd eu hangen a diolch am bob cyfraniad.

**Senedd Ysgol 2023/24**
Llongyfarchiadau i aelodau ein Senedd Ysgol sydd wedi cael eu hethol am y flwyddyn 2023/24. Mi fydd y Senedd yn gyfrifol am gynrychioli barn disgyblion yr ysgol ar ystod o faterion, yn ogystal ag arwain gweithgareddau i godi arian dros elusen yn ystod y flwyddyn.


*Senedd Ysgol 2023/24*

**Cyngherddau Nadolig: Rhagfyr 21**
Rydym yn eich gwahodd yn gynnes i ymuno â ni ar gyfer ein cyngherddau Nadolig a gynhelir eleni yng nghapel y Tabernacl, yr Ais ar nos Iau, Rhagfyr 21 am 4.30pm ac eto am 6pm. Mae llythyr wedi ei anfon drwy ClassCharts a gofynnwn i chi archebu tocynnau drwy *ParentPay*, £2 i oedolion a 50c i blant. Ni fydd ffordd well o ddechrau tymor yr wŷl na drwy ymuno yn y dathliad yng nghwmni talentau arbennig Glantaf – gan gynnwys ein côr bendigedig o leisiau Bl7!

**Ymgynghoriad newid y flwyddyn ysgol**
Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar newidiadau i'r flwyddyn ysgol. Yr awgrym ydy cwtogi gwyliau Haf i 5 wythnos er mwyn cael pythefnos dros hanner tymor Hydref, a chanoli Gwyliau'r Pasg yn gyson er mwyn sicrhau bod tymor y Gwanwyn yr un hyd. Mae'r argymhellion yma wedi eu selio ar ymchwil gadarn o ran sicrhau cynnydd plant a hwyluso gwaith cynllunio a pharatoi athrawon. Maent yn croesawu eich barn: **https://www.llyw.cymru/strwythur-y-flwyddyn-ysgol**
**https://www.youtube.com/watch?v=lSB6xwAyHSo**

**Ffug-brofion:** Fel y gwyddoch, bydd ffug-brofion Bl11-13 yn cael eu cynnal o ddydd Mercher, Rhagfyr 12 tan Dydd Mercher, Rhagfyr 20. Bydd arholiadau y bore yn cychwyn am 9am a'r prynhawn am 12.30pm. Gwiriwch ClassCharts ar gyfer yr amserlen lawn
Blwyddyn 11: 13 – 20 o Ragfyr
Blwyddyn 12: 12 – 17 o Ragfyr
Blwyddyn 13: 12 – 19 o Ragfyr

**Noson Rhieni Bl. 9** – cynhelir y noson hon yn Nglantaf ar nos Iau, Rhagfyr 14, 3.15-6.30pm

**Seremoni Gwobrwyo TGAU a Safon Uwch:** Cynhelir ein Seremoni Gwobrwyo ar brynhawn Mercher, Rhagfyr 19 yn yr ysgol i Fl. 11 a 13 llynedd a bydd yn cychwyn am 6yp. Bydd mwy o fanylion i ddilyn, ond mae croeso i rieni ymuno â ni ar gyfer dathlu llwyddiannau arholiadau yn Haf 2023!

**Sgwrs am waith:** Yn ystod wythnos yn dechrau'r 4ydd o Ragfyr mi fyddwn yn cynnal gweithgareddau sgwrs am waith. Cyfle bydd hwn i sampl o ddisgyblion yr ysgol i gwrdd gydag aelodau'r Tîm Arwain i drafod eu gwaith ysgol, a thrafod testunau megis adborth, her mewn tasgau, gwersi a gwaith cartref. Mae hyn yn rhan holl bwysig o'n prosesau hunan werthuso fel ysgol.

**Caffi Lles:** Bydd ein caffi lles yn cael ei chynnal ar ddydd Mercher y 6ed o Ragfyr am 13.50 yn yr ysgol. Mae hyn yn gyfle i rieni gwrdd a thrafod lles eu plant gydag arbenigwyr amrywiol. Ar y 6ed mi fydd Dr. Siaron West a Dr Lisa Cordery yn mynychu, gyda'r ddwy yn arbenigo wrth gynnig cefnogaeth i rieni a phlant y gymuned LHDTC+.


*Corb Davies, Enillydd cystadleuaeth What I Will Ymddiriedolaeth Ysgolion Shakespeare*

**Dyddiadau pwysig**

| | |
|---|---|
| Rhagfyr 15 – | Cyngerdd Nadolig y Ganolfan (10yb) |
| | Dydd siwmper / thema Nadolig : £1 i Felindre |
| Rhagfyr 19 – | Noson wobrwyo TGAU a Safon Uwch Haf '23 |
| Rhagfyr 21 – | Cyngherddau Nadolig (Capel y Taberncal) |
| **Rhagfyr 22 –** | **Ysgol yn cau am 13.15** |
| Ionawr 8 - | HMS, ysgol ar gau i ddisgyblion |
| Ionawr 9 – | Dychwelyd i'r ysgol (wythnos 2) |

I gloi, yn dilyn penderfyniad yr Adran Saesneg i newid y llyfr gosod ar gyfer disgyblion o fewn Saesneg Llenyddiaeth TGAU i glasur Maya Angelou "*I Know Why the Caged Bird Sings*" efallai yr hoffech ddarllen blog un o athrawon yr adran, Ms G Evans am y gwaith ar wefan DARPL: Maybe some Mice should be Caged… - DARPL Gwerth ei ddarllen yn sicr!




Yn gywir,

Dyfrig G Rees
Dirprwy Bennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf